## Arbrawf Rhewi

Offer:

- Hambwrdd;
- Anifeiliaid plastig;
- Dŵr;
- Siwgr;
- Halen;
- Llwyau, cyllell plastig neu offer plastig.

Dull:

1. Rhowch yr anifeiliaid plastig tu fewn i'r hambwrdd.
2. Llenwch yr hambwrdd gyda dŵr. Yn ofalus, rhowch yr hambwrdd yn y rhewgell. Mae'n cymryd tua 2 awr iddo rewi'n solid. Gallwch hefyd ei adael dros nôs.
3. Tynnwch yr hambwrdd o'r rhewgell.
4. Dechreuwch y broses gloddio trwy ddefnyddio gwahanol offer i achub yr anifeiliaid.
5. Ysgeintiwch siwgr dros yr anifeiliaid ac arsylwch ar yr hyn sy'n digwydd i'r iâ.
6. Ailadroddwch gyda halen, dŵr oer a dŵr cynnes.

**Pa un sy'n toddi'r iâ gyflymaf?**

